Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe - Grŵp Partneriaeth

**Committee Room 3A - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 21 Tachwedd 2017 am 12.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Prif Arolygydd Mark Brier, Heddlu De Cymru
Y Cynghorydd Mark Child, Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles, Cyngor Abertawe
Raymond Ciborowski, Prifysgol Abertawe
Y Cynghorydd Jan Curtice, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Andrew Davies, BILI PABM
Hilary Dover, Grŵp Cynllunio
Hywel Evans, Fforwm Busnes Rhanbarthol
Jonathan Field, Adran Gwaith a Phensiynau
Sian Harrop-Griffiths, BILI PABM
Sandra Husbands, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Anna Jones, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Erika Kirchner, Cadeirydd Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol, Cyngor Abertawe
Clive Lloyd, Dirprwy Arweinydd, Cyngor Abertawe
Huwel Manley, Cyfoeth Naturiol Cymru
Philip McDonnell, Fforwm yr Amgylchedd Abertawe
Sharon Miller, BILI PABM
Bonnie Navarra, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu De Cymru
Jennifer Raynor, Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Abertawe
Mary Sherwood, Aelod y Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol, Cyngor Abertawe
Chris Sivers, Cyfarwyddwr Pobl, Cyngor Abertawe
Gail Smith, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Hefyd yn bresennol:**
Leanne A'Hern, Swyddog Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyngor Abertawe
Sian Bingham, Rheolwr Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd, Cyngor Abertawe
Penny Gruffydd, Swyddog Polisi Cynaliadwyedd, Cyngor Abertawe
Allison Lowe, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Abertawe
Rachel Moxey, Pennaeth Tlodi a'i Atal, Cyngor Abertawe
Jo Portwood, Swyddog Strategaeth a Pholisi, Cyngor Abertawe

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

JuneBurtonshaw, Aelod y Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol, Cyngor Abertawe
Eirian Evans, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru
Martin Jones, Heddlu De Cymru
Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau, Cyngor Abertawe
Helen Matthews, Canolfan Byd Gwaith
Mike Phillips, Grŵp Ymchwil
Carys Wynne-Morgan, Cyngor Celfyddydau Cymru

**19 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**20 Cofnodion.**

**Cytunwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Grŵp Partneriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 19 Medi 2017 fel cofnod cywir.

**21 Cwestiynau gan y Cyhoedd.**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**22 Y diweddaraf am gynnydd y cynllun lles a blaenoriaethau blaenorol y BGC 2016/17.**

Adroddodd Chris Sivers fod y Cynllun Lles drafft wedi'i gwblhau, ei gyfieithu a'i ddosbarthu ar gyfer ymgynghoriad, a ddechreuodd ar 21 Tachwedd a byddai'n rhedeg tan 13 Chwefror 2018. Gofynnwyd i'r aelodau ymgynghori â'u rhwydweithiau, sefydliadau a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Yn ystod y cyfnod hwn byddai'r gwaith yn parhau gyda'r Grŵp Cynllunio a'r Grŵp Craidd i ffurfio'r camau gweithredu mewn mwy o fanylder. Yna, byddent yn profi'r cynllun yn erbyn y nodau a'r ffyrdd o weithio yng nghyfarfod nesaf y bartneriaeth ym mis Ionawr 2018. Yna byddai'r cynllun drafft yn cael ei gwblhau a chytuno arno ym mis Mawrth gyda'r sefydliadau unigol yn ei gymeradwyo ym mis Ebrill a'i gyhoeddi ym mis Mai 2018.

Oherwydd cyfyngiadau amser yn y cyfarfod, byddai'r tasgau canlynol nawr yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynllunio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Asesiad Lles;
- Diagramau ysgogi yn y cynllun drafft;
- Canlyniadau'r blaenoriaethau presennol;
- Camau drafft presennol;
- Cyfraniad posib pob sefydliad;
- Nodi camau gweithredu perthnasol mewn dogfen fatrics.

**Cytunwyd** bod y partneriaid yn cyflwyno unrhyw syniadau/sylwadau ar y Cynllun Lles drafft i Chris Sivers.

Roedd y noddwyr wedi rhoi'r diweddaraf ar lafar ar Brosiectau Blaenoriaethau'r BGC:

**Canol y Ddinas/Datblygu Economaidd**

Adroddodd Phil Roberts a Rob Stewart am:

Ganol y ddinas - Cynnydd ar safle'r arena'n mynd yn dda. Byddai'r cais cynllunio'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Rhagfyr. Cynnydd â Ffordd y Brenin - mae cylchfan dros dro wedi ei ail gyflwyno ger y YMCA. Yn dilyn y Nadolig byddai mwy o newidiadau sylfaenol yn dechrau gan gynnwys dychwelyd traffig dwyffordd ar hyd Stryd Mansel/Stryd Walter. Byddai'r newidiadau hyn yn arwain at 3 llwybr mynediad ar wahân i ganol y ddinas. Roedd gwaith yn parhau ar y model busnes 5 achos.

Dinas Diwylliant – cynhaliwyd ymweliad y panel yn ddiweddar. Diolch i'r holl gydweithwyr/partneriaid sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith am eu holl waith caled. Aethant i dderbyniad yn Nhŷ'r Cyffredin a gynhaliwyd gan Aelodau Seneddol a byddai tîm o 3 chynrychiolydd o Abertawe yn mynd i Hull ar 6/7 Rhagfyr. Byddai'r canlyniad yn cael ei gyhoeddi ar 8 Rhagfyr 2017 - byddai'n uchelgais go iawn i ddinas Abertawe.

Morlyn Llanw - mae cerdyn post enfawr wedi'i arwyddo wedi'i anfon at Swyddfa Cymru ar ei ffordd i Stryd Downing lle cyflwynwyd y ddeiseb er mwyn cefnogi'r Morlyn Llanw. Trefnwyd i bapur chwalu mythau gael ei anfon at yr holl Aelodau Seneddol yn amlinellu bod y morlyn llanw'n rhatach na niwclear a ffermydd gwynt alldraeth. Nododd Huwel Manley fod yna gyfyngiadau eraill a oedd angen eu hystyried o hyd, gan gynnwys adeiladu, trwyddedu'r broses adeiladu a bod angen profi'r wyddoniaeth derfynol o hyd.

Y Fargen Ddinesig - yn y broses o gadarnhau'r cytundeb cyfreithiol. Gweithio ar fodel busnes 5 achos yn unol â Llywodraeth y DU. Gwaith ymchwilio i'r safle yn dal i fynd rhagddo.

Canolfan Lles Canol y Ddinas - Darparodd Sharon Miller, Pennaeth Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd PABM, gyflwyniad ar y Ganolfan Lles arfaethedig. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi noddi'r datblygiad o astudiaeth dichonoldeb, a oedd wedi'i chynnal gan Grŵp IBI dan y flaenoriaeth adfywio.

Amlinellodd y rhesymau pam bod angen y ganolfan:

- Nifer isel o bobl yn byw ac yn gweithio yn yr ardal ganolog:
  - Dirywiad yn nifer yr ymwelwyr (26%);
  - Anghydraddoldebau iechyd arwyddocaol;
  - Baich clefyd uchel;
  - Twf cynlluniedig mewn poblogaeth - myfyrwyr, Cynllun Datblygu Lleol, ceiswyr lloches;
  - Materion cynaladwyedd y gweithlu gofal iechyd;

- Anheddau anaddas wedi dyddio.

I ddechrau, nodwyd 7 safle sydd wedi'i gyfyngu i 3, fodd bynnag nododd Grŵp IBI safle'r glannau fel safle posib ar gyfer y ganolfan newydd. Roedd ganddo'r potensial i osod adeilad 10,000 metr sgwâr, sy'n arwain at:

- Gyfleuster iechyd a lles hygyrch modern o'r radd flaenaf;
- Cydleoli ystod eang iawn o wasanaethau iechyd cymunedol, meddygfeydd teuluol lluosog - pediatreg, gwasanaethau deintyddol, lleferydd ac iaith, gwasanaethau iechyd rhyw, monitro INR, timau gofal iechyd a chymdeithasol integredig;
- Gwasanaethau lles - cydleoli gyda'r llyfrgell, y gwasanaethau lles meddwl, lle amlddefnydd, hwb arloesi 3ydd sector;
- Gwerth ychwanegol - sgiliau byw'n annibynnol (ymchwil ac arloesedd meddygol), cronfa ddoniau, academi hyfforddi meddyg;
- Cymunedau Digidol Cymru;
- A llawer o opsiynau eraill.

Nodir manteision y ganolfan fel:

- Swyddi gwybodaeth economaidd sy'n talu'n dda;
- Swyddi trefol;
- Mynd i'r afael â chynaladwyedd - helpu gyda recriwtio a chadw;
- Cynnydd yn yr amrywiaeth o wasanaethau cymunedol - gofal yn agosach at gartref;
- Cyfleusterau modern hygyrch - mynd i'r afael â'r gyfraith gofal fewnol;
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd;
- Cyflymu camau gweithredu ar gyfer penderfynyddion cymdeithasol, e.e. cynhwysiad digidol;
- Integreiddio gwasanaethau ac agendau iechyd a lles yn well.

Penderfyniad y partneriaid oedd hi nawr i benderfynu ar lefel eu hymrwymiad, gydag un partner arweiniol yn gorfod bwrw ymlaen â'r 10/12 rhanddeiliaid allweddol.

Trafodwyd y meini prawf sgorio a ddefnyddir ar gyfer penderfynu ar leoliad y ganolfan ar y cyd â'r ffaith bod lleoliad mwy canolog yn cael ei ffafrio o ran hygyrchedd y defnyddwyr a chysylltiadau trafnidiaeth agosach.

**Cam-drin Domestig**

Amlinellodd Rachel Moxey, Pennaeth Tlodi a'i Atal, Cyngor Abertawe, nodau'r llif gwaith, sef:

- Cydnabod ac ymateb i anghenion cymhleth unigolion oherwydd ffyrdd anhrefnus o fyw - canolbwyntio ar hyrwyddo ymgysylltu;
- Pobl â phroblemau Key 3 i gael mynediad i gefnogaeth addas/amserol;
- Lleihau nifer yr ailgyfeiriadau;
- Ymateb amlasiantaeth i ymyriadau, gofal a chefnogaeth integredig;
- Rhannu gwybodaeth yn effeithiol/hyrwyddo gweithio amlasiantaeth;

- Osgoi dyblygu

Mae'r canlyniadau hyd yn hyn wedi arwain at sefydlu Grŵp Llywio amlasiantaeth Key 3 er mwyn hyrwyddo a llywio ymateb cydlynol. Cytunwyd ar Brotocol Rhannu Gwybodaeth ac ymgysylltwyd â hwy gyda 30 o unigolion sy'n wynebu problemau Key 3 er mwyn cael profiad ac adborth. Mae llwybr atgyfeirio ar gyfer y broses ddarpariaeth wedi'i gyflwyno a chytuno arno. Mae sesiwn hyfforddiant amlasiantaeth/cynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer 134 aelod o'r staff a sesiynau galw heibio amlasiantaeth wedi'u sefydlu fel ffordd effeithiol o annog unigolion sy'n anodd eu cyrraedd.

Byddai camau pellach yn parhau gyda phrosiect Key 3 er mwyn:

- Mewnosod gwaith partneriaeth amlasiantaeth;
- Cyflwyno pecyn hyfforddi ochr yn ochr â 'Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu' mewn partneriaeth â PABM;
- Gweithredu'r llwybr i ddarpariaeth ar draws amlasiantaethau er mwyn osgoi dyblygu;
- Ehangu gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir drwy'r asiantaeth fwyaf addas;
- Ehangu cwmpas i weithio gyda'r sawl sy'n cyflawni trosedd a'r dioddefwyr;
- Cynyddu'r sylfaen dystiolaeth o'r angen i lywio trefniadau comisiynu yn y dyfodol.

**Cytunwyd** y byddai'r Protocol Rhannu Gwybodaeth yn cael ei ddosbarthu ymhlith yr aelodau.

**Annibyniaeth Pobl Hŷn**

<u>Heneiddio'n Dda</u> - Darparodd Rachel Moxey ddiweddariad o ran nodau gweithio tuag at Gymuned sy'n Deall Dementia drwy ddatblygu *Canol y ddinas sy'n gyfeillgar i oed* gan ddefnyddio 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' ar draws y prif bartneriaid, ehangu PDG sy'n cefnogi pobl ddiamddiffyn ac ymwybyddiaeth o waith Atal Cwympiadau presennol.

Hyd yma cydnabuwyd bod pob aelod craidd yn Ystyriol o Ddementia. Mae 7,500 o staff y sector cyhoeddus wedi'u hyfforddi i fod yn Ystyriol o Ddementia. Mae 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' wedi'i gytuno yn barod i'w weithredu. Byddai gweithio gydag OPERAT yn bwydo i ddatblygiad canol y ddinas. Bydd ehangiad o ran Cydlynwyr Ardaloedd Lleol gyda'r gobaith o ehangu ymwybyddiaeth o atal cwympiadau - thema allweddol 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif', a dilynir hyn gan fwy o ymgysylltu a chynnwys.

Mae'r camau gweithredu ychwanegol fel a ganlyn:

- Mapio sut rydym yn cynnwys dinasyddion a chytuno ar safonau cyfranogiad ar draws y sector cyhoeddus;
- Ymagweddau cydweithredol at iechyd a lles gweithlu'r sector cyhoeddus;
- Helpu cymunedau i gynyddu menter gwirfoddoli a mentora;

- Negeseuon ar y cyd, clir a chyson am fyw a heneiddio'n dda;
- Cyflwyno 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' ar draws y BGC;
- Cynyddu'r gefnogaeth gydlynol ar gyfer cyflogaeth a dysgu ar gyfer pob cyfnod ym mywydau pobl.

Trafodwyd sut y byddai'r 5 ffordd o weithio'n adlewyrchu'r camau gweithredu a amlinellwyd uchod a modelau arfer da. Cadarnhawyd y byddent yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Comisiynu.

**Dechrau da mewn bywyd**

Rhoddodd Sian Bingham, Rheolwr Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd, Cyngor Abertawe ddiweddariad ar 'Dechrau Gorau Abertawe'.

Amlinellodd yr egwyddorion, yr ymagwedd gyffredinol drwy'r brif negeseuon, yr ymgyrch farchnata a chyhoeddusrwydd er mwyn cyflawni cyfranogiad, newid agwedd, mynediad i wybodaeth am ei fod yn fusnes i bawb.

Amlygwyd y cynnydd hyd yn hyn a oedd yn cynnwys ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol, cyflwynwyd 29 o sesiynau ymwybyddiaeth o'r gweithlu i asiantaethau gwahanol, cymerodd 630 aelod o staff o sefydliadau amrywiol ran, gan gynnwys Awdurdod Lleol, Iechyd, y trydydd sector a'r Gwasanaeth Tân.

Cafwyd dau brif brosiect:

1. Jig-so – tîm amlddisgyblaeth ac amlasiantaeth integredig o fydwragedd, NNEBs ac ymarferwyr Datblygiad Iaith a Magu Plant ar gyfer cefnogi rhieni am y tro cyntaf dan 25 oed drwy gynnig cefnogaeth iddynt i'w galluogi i fodloni anghenion eu plentyn yn well a magu'r ffactorau gwydnwch sydd eu hangen er mwyn ffynnu fel teulu.
2. Prosiect Gofal Sylfaenol Blynyddoedd Cynnar Penderi - prosiect peilot 12 mis wedi'i ariannu gan Rwydwaith Meddygon Teulu Penderi i gyflwyno sgiliau magu plant ac ymyriadau ar gyfer rhieni ifanc a'u rhieni drwy rwydwaith y meddygon teulu.

## 23 Ymateb i lythyr Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn dilyn cais gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran sut y gallant gymryd camau i fodloni'r amcanion lles drafft, darparodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru lythyr cyngor 15 tudalen, a oedd hefyd yn cynnwys nifer o gamau gweithredu a argymhellir y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried.

Gofynnodd Chris Sivers am arweiniad gan y partneriaid am ymateb ar y cyd, sy'n canolbwyntio ar y penawdau canlynol:

- Yr hyn rydym yn credu ein bod yn ei wneud yn dda ar hyn o bryd/eisoes yn ei wneud;
- Meysydd rydym wedi canfod eu bod yn llai defnyddiol;
- Elfennau rydym wedi canfod eu bod yn arbennig o gynorthwyol/defnyddiol.

Roedd yr aelodau'n teimlo y dylai'r ymateb i'r Comisiynydd fod yn gadarn a dylai amlygu'r ffaith bod gwaith mewn perthynas â llawer o awgrymiadau'r llythyr eisoes yn cael eu gwneud gan y partneriaid.

**Cytunwyd** bod Chris Sivers yn llunio llythyr ymateb yn seiliedig ar y penawdau uchod ac yn ei ddosbarthu i aelodau'r Bwrdd am eu sylwadau, cyn ei anfon at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

**24 Dinas Hawliau Dynol.**

Darparodd Chris Sivers nodyn briffio mewn ymateb i gais y cadeirydd am fwy o wybodaeth am esboniad o'r hyn yw Dinas Hawliau Dynol, gan ddefnyddio profiad dinas Efrog, a beth fyddai potensial Abertawe i fabwysiadu ymagwedd debyg yn ei gwaith.

Amlinellodd y nodyn briffio'r diffiniadau gwahanol, pwy oedd yn cymryd rhan, yr hyn maen nhw'n ei wneud a'r ystyriaethau ar gyfer Abertawe.

Gwnaed cyswllt cychwynnol â Dinas Hawliau Dynol Efrog gyda'r cynnig ei bod yn bresennol mewn cyfarfod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn y dyfodol.

**Cytunwyd** bod Dinas Hawliau Dynol Efrog yn cael ei gwahodd i gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

**Andrew Davies (Vice Chair) Presided**

**25 Strategaeth Cynnwys.**

Amlinellodd Jo Portwood ymagwedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe at gyfranogaeth (cynnwys ac ymgynghoriad) yn dilyn cyhoeddiad ei gynllun lles.

Mae'r ymagwedd yn adeiladu ar y gwaith cynnwys ac ymgynghori yr ymgymerwyd ag ef cyn datblygu'r cynllun a'r amcanion drafft yn ystod y gweithdai ar gyfer rhandeilliaid a gynhaliwyd gan Alan Netherwood (Netherwood Sustainable Futures) a gomisiynwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin ac ym mis Gorffennaf 2017.

**Cytunwyd ar y canlynol:**

1) Y diffiniadau a'r defnydd o gysyniadau o'r fath - cyfranogaeth, ymgynghoriad, cynnwys a chyfranogiad - amlinellwyd yn y papur, at ddiben y cynllun lles;

2) Safonau fel y mae safonau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar ymgynghori, at ddibenion y cynllun;

3) Y cynllun gweithredu drafft a'i gynnwys fel cynllun gwaith ar gyfer gweithgareddau cyfranogaeth, gyda'r awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r grŵp cynllunio i gadarnhau'r manylion manylach.

4) Aelodau'r bartneriaeth i roi dolen i'r arolwg a'r cynllun lles ar dudalen hafan eu gwefan/unrhyw blatfform perthnasol arall (fel y cytunwyd gan y Grŵp Cynllunio ar 10 Hydref 2017), anfon cynrychiolwyr i'r diwrnod hyfforddi ar ymgynghori (wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun, 11 Rhagfyr), defnyddio fforymau a rhwydweithiau eu hunain i ymgynghori â'r cynllun (bydd deunyddiau ac adnoddau ar gael ar y diwrnod hyfforddi ac ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus), darparu gwybodaeth am ddigwyddiadau'r ymgynghoriad a drefnir a chanlyniadau unrhyw ymgynghoriad i sicrhau bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael trosolwg o bob gweithgaredd cyfranogiad.

**26 Adroddiadau er gwybodaeth.**

**Cytunwyd** nodi'r adroddiadau 'er gwybodaeth' canlynol:

- Lles yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory;
- Cludiant cymunedol: Cyflwyno lles i bobl Cymru.

**27 Unrhyw fater arall.**

Esboniodd Phil McDonnell, Fforwm Amgylcheddol Abertawe, fod Prifysgol Abertawe wedi cyrraedd rownd derfynol Her Beiciau Prifysgolion Santander. Byddant yn cystadlu yn erbyn pedair prifysgol arall yn y DU mewn ymgyrch cyllido torfol, a fyddai'n dod â chynllun llogi beiciau i Abertawe os yn fuddugol.

Y ddwy brifysgol fuddugol fyddai'r ddwy sy'n codi'r ganran uchaf o arian dros ben eu targedau gwreiddiol a byddent yn derbyn gwerth £100,000 o gyfarpar ac isadeiledd yr un er mwyn sefydlu cynllun rhannu beiciau i'w cymuned.

Gofynnodd i'r holl bartneriaid gymryd rhan ac i wneud addewid i helpu i ddod â'r cynllun beicio gwych hwn i Abertawe.

Roedd taflenni gyda gwybodaeth bellach ar gael i bartneriaid ar ddiwedd y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.36 pm

**Cadeirydd**